# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Video Conference via Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 1 Mehefin 2020

Amser: 12.30 - 13.38

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Rebecca Evans AS<br>Darren Millar AS<br>Siân Gwenllian AS<br>Caroline Jones AS |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Bethan Garwood<br>Elin Roberts, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

| | |
|---|---|
| | Jessica England |

# 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

# 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

# 3 Trefn busnes

## 3.1 Busnes yr wythnos hon

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at ychwanegu datganiad gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ar Ddigartrefedd at gyfarfod dydd Mercher. Dywedodd wrth y Rheolwyr Busnes hefyd y byddai datganiad gan y Gweinidog Addysg yn cael ei ychwanegu at yr agenda brynhawn heddiw.

### Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i barhau â'r arfer o beidio â chael unrhyw gwestiynau ar y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes.

### Ymyriadau

Dywedodd y Llywydd wrth y Rheolwyr Busnes y bydd, fel y digwyddodd yn nadl y llywodraeth yn y Cyfarfod Llawn diwethaf, yn ymdrin ag ymyriadau yn wahanol i'r ffordd y byddai mewn cyfarfod arferol. Yn hytrach nag ymyriadau, cyn i'r siaradwr olaf ymateb i ddadl, bydd y Llywydd yn cymryd cyfraniadau un funud gan Aelodau sy'n ymateb i rywbeth a ddywedwyd yn ystod y ddadl. Gallai hynny gynnwys Aelodau a oedd eisoes wedi siarad.

### Sut i Ymuno

Dywedodd y Llywydd wrth y Rheolwyr Busnes, er y bydd hawl i'r holl 60 o Aelodau fod yn bresennol, bod angen i grwpiau ac aelodau annibynnol hysbysu Ysgrifenyddiaeth y Siambr o hyd o bwy fydd yn bresennol. Gofynnodd y Llywydd hefyd i Reolwyr Busnes

annog Aelodau i gyflwyno eu ceisiadau i siarad erbyn diwedd dydd Mawrth os yn bosibl.

Gofynnodd y Llywydd i'r Rheolwyr Busnes hefyd sicrhau bod Aelodau yn ymwybodol fod angen iddynt ymuno â'r cyfarfod am 10.30 (neu hanner awr cyn yr amser dechrau os ydynt yn ymuno â sesiwn y prynhawn yn unig), ar yr hwyraf, er mwyn caniatáu amser ar gyfer gwiriadau TG. Bydd angen i Aelodau sy'n cyrraedd ar ôl 10.50am (neu 10 munud cyn dechrau sesiwn y prynhawn) aros nes y bydd y cyfarfod wedi dechrau.

**Egwyl**

Cytunodd y Rheolwyr Busnes y dylid cynnal yr egwyl ar ôl y Cwestiynau Amserol, am tua 12.20.

**3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf**

***Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y 3 Wythnos Nesaf***

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at yr amserlen ddiwygiedig ar gyfer y 3 wythnos nesaf a ddosbarthwyd fore heddiw:

**Dydd Mercher 17 Mehefin 2020**

- Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i gynnal dadl ar y canlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân: (30 munud)
    - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020
    - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020

### 3.3 Amserlen Busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Trafododd y Rheolwyr Busnes y llythyr gan Suzy Davies a chytunwyd i amserlennu'r cynnig heb ddyddiad trafod sy'n cynnig dirymu Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafierws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) 2020, dydd Mercher 10 Mehefin.

## 4 Y Cyfarfod Llawn

### 4.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau

Trafododd y Rheolwyr Busnes y llythyr a chytunwyd i barhau â'r arfer o amserlennu dim ond busnes yn ymwneud â Covid-19 am y tro, ac i hysbysu'r Pwyllgor o hynny. Cytunwyd hefyd y dylai'r Pwyllgor Deisebau ysgrifennu eto pe bai am amserlennu dadl yn ymwneud â deiseb yn ymwneud â Covid.

### 4.2 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Trafododd y Rheolwyr Busnes y llythyr a chytunwyd mewn egwyddor i amserlennu dadl y Pwyllgor Cyllid ar flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru yn ystod yr wythnos olaf cyn toriad yr haf.

### 4.3 Papur i'w nodi - Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Nododd y Rheolwyr Busnes y llythyr.

## 5 Deddfwriaeth

### 5.1 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020

Cytunodd y Pwyllgor ar derfyn amser cyflwyno adroddiad o ddydd Iau 12 Mehefin ar gyfer y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar gyfer Rheoliadau Rhif 4

a Rheoliadau Rhif 5. Cytunodd y Trefnydd i ystyried a allai unrhyw reoliadau yn y dyfodol gael eu hamserlennu i'w trafod yn gynt, a chaniatáu ychydig o amser i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad.

## 6 Pwyllgorau

### 6.1 Cais i sefydlu Pwyllgor y Senedd ar Covid-19

Trafododd y Rheolwyr Busnes y papur. Roedd Darren Millar a Siân Gwenllian o blaid ac roedd y Trefnydd a Caroline Jones yn erbyn, felly barn y mwyafrif oedd yn erbyn y cais i gyflwyno cynnig i sefydlu'r pwyllgor.

Roedd y Rheolwyr Busnes yn cytuno ei bod yn bwysig ystyried Covid-19 mewn ffordd drawsbynciol a chytunwyd i ofyn i'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog gwrdd yn fuan ar ddechrau'r hanner tymor hwn. Gwnaeth Caroline Jones gais i bob grŵp gael ei gynrychioli ar unrhyw bwyllgor sy'n cynnal gwaith craffu trawsbynciol.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes hefyd ei bod yn bwysig craffu ar y gwaith adfer ar ôl Covid-19, a gaiff ei arwain gan y Cwnsler Cyffredinol. Gofynnwyd i'r swyddogion ystyried ble o fewn cylch gwaith presennol y pwyllgorau roedd y cyfrifoldeb hwn, ac i ymgynghori ar y mater â Fforwm y Cadeiryddion.

### 6.2 Amserlen y Pwyllgorau

Trafododd y Pwyllgor Busnes yr amserlen ddiwygiedig ar gyfer y pwyllgorau a chytuno arni, gan ganiatáu i'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon gwrdd yn wythnosol.

## 7 Unrhyw Fater Arall

**Y wybodaeth ddiweddaraf am Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol**

Rhoddodd y Trefnydd y wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol a ganlyn:

Y Bil Pysgodfeydd - Mae hwn wedi cael ei ddal yn ôl ymhellach am resymau technegol ac mae'n debygol o gael ei gyflwyno ar ôl toriad yr haf. Felly mae'r ddadl a oedd wedi cael ei hamserlennu dros dro ar gyfer 8 Gorffennaf wedi cael ei gohirio.

Y Bil Ardrethu Annomestig (Rhestri) a'r Bil Ardrethu Annomestig (Toiledau Cyhoeddus) - Cafodd y Biliau hyn eu cyflwyno ar gyfer gwaith craffu gan Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, ond ni osodwyd terfynau amser ar gyfer adroddiadau gan fod y llywodraeth yn aros am wybodaeth ychwanegol am amserlenni'r Senedd. Gan fod y rhain yn parhau i fod yn ansicr, cynigiodd y llywodraeth bod y pwyllgorau yn cael terfyn amser o 2 Gorffennaf ar gyfer cyflwyno adroddiad. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i'r terfyn amser arfaethedig.

Y Bil Ansolfedd a Llywodraethu Corfforaethol - Mae'r llywodraeth yn ystyried a oes angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar gyfer y Bil hwn ac, os felly, mae'n rhagweld gosod y Memorandwm yr wythnos hon ac yn awgrymu cynnal dadl ar 10 Mehefin.

**Cwestiynau ysgrifenedig**

Cododd Rheolwyr Busnes y Gwrthbleidiau bryderon pellach ynghylch amseru a chynnwys atebion ysgrifenedig. Cytunodd y Trefnydd i drafod hyn gyda chyd-Weinidogion a chododd y mater fod Aelodau yn gofyn am wybodaeth a oedd eisoes ar gael yn gyhoeddus. Gofynnodd y Llywydd i'r swyddogion ddarparu rhagor o wybodaeth iddi ynghylch pryd roedd cwestiynau yn cael eu hateb.